

TERESA CARBERRY

Formative education, gained qualifications, personal and professional experience, together with the practical experience of working within the third sector and the role of being a Town Councillor, has provided me with the necessary toolbox of skills to positively take on this role.

Educated at the Alun School in Mold, I achieved 'A' levels in Physics, Chemistry and Biology. This led directly to a BSc Microbiology Honours, received from the University of Liverpool. This gives credit to self discipline, a willingness to learn, combined with an ability to interpret, present and analyse data. During this time I worked as a volunteer in the Pathology Labs of Wrexham Maelor Hospital; which provided an insight into the need for infection control and the breadth of microbial diseases affecting the community.

An immediate move to London to gain a Post Graduate Certificate in Education, to teach Biology and Science to Secondary School Students, highlights an ability to communicate effectively with a wide range of people, (some of whom were very challenging), write reports and meet deadlines.

Now semi-retired, but continuing to work part-time as a teacher at the Alun School, my previous responsibilities included that of Head of Personal and Social Education, Healthy Schools Coordinator and Healthy Schools Assessor for Flintshire. Currently a Trustee for Lions MD105 Lifeskills Ltd. (formerly Tacade), this enables me to be in a position to be able to continue with the provision and development of lifeskills based resources to address the health and wellbeing for all children and young people.

A diagnosis of Hodgkin's Lymphoma in my late twenties necessitated a full range of treatments: radiotherapy, (Colchester), chemotherapy (at Ysbyty Glan Clwyd) and a stem cell transplant (Christies). The benefits and importance of health professionals and social services working closely together was not lost upon me. It also highlights my engagement, awareness and understanding of the roles and links between primary, secondary and tertiary health providers.

Upon hearing the news that a Cancer Treatment Centre was to be built at Ysbyty Glan Clwyd, I wrote to the Medical Director, asking why the views and expertise of patients was not being sought. I was invited to become a member of the Patient Focus Group, having input into the design of the wards, patient facilities, outside areas, as well as playing a part of the consultation process, with regard to interior décor and art work. A sense of ownership is a vital ingredient in engaging the public, as is the need to give them a voice and a chance to evaluate the health services provided to them. This serves to inform change and future working practices.

Membership of the Group, led naturally to me becoming a volunteer, active fundraiser and eventually secretary, for the Ron Smith Appeal (now the Margaret and Ron Smith Appeal). Working alongside others, monies were raised to provide essential medical equipment for the Cancer Treatment Centre.

Volunteering took on a more pivotal role in my life, when I became a member of Lions Clubs International. In 2017-2018, I became a District Governor for this worldwide service organisation. This role is one of administrative head, for in my case, 800 Lions and 54 clubs, located in Anglesey, Shropshire, Cheshire, Conwy, Flintshire and Staffordshire – a task that included much travel, at times conflict resolution, public speaking and engagement with a diverse group of people, who shared vision of serving their communities, acting as a facilitator and using leadership skills to effectively further the aims and purpose of the organisation. Part of this role involved health promotion, organising diabetes screening, making the public aware of sight related issues, organising prostate screening and raising funds for the purchase of Bloodbikes, etc

As a Town Councillor for Mold, I serve on the Community Development & Regeneration Committee, Policy & Audit Committee, the Community Awards Panel and Youth and Children's Council Committee and represent the Council on the Mold Fairtrade Group. I was responsible for completing the application to successfully renew its Fairtrade Town status in March this year. This involved the collation of evidence that showed organisation of events, school and community engagement and education, as well as positive use of public relations opportunities via social media and local press.

My commitment to promoting good health and a sense of well-being continues with my active participation in an art installation, which will form part of the Manchester 'Sick Festival' in September 2019.

All of the above highlights my knowledge and personal skills, engagement and enthusiasm for health promotion and education. This is an exciting time to be a stakeholder, with the recent publication of "A Healthier Wales Plan: Our Plan for Health & Social Care". It aims to form a holistic person-centred approach to the health and well-being of all, from birth to death. This will prove no mean feat in this climate of austerity and its effect on public services and will involve health professionals, educators, social services, the housing sector and third sector, to name but a few, working in a seamless partnership. I would very much like to represent One Voice Wales and engage in this process on their behalf and hope that my application will be given due consideration.

Teresa Carberry (Cllr)
Mold Town Council

TERESA CARBERRY

Mae addysg ffurfiannol, ennill cymwysterau, profiad personol a phroffesiynol ynghyd â'r profiad ymarferol o weithio yn y trydydd sector a'r rôl o fod yn Gynghorydd Tref wedi rhoi'r pecyn sgiliau angenrheidiol imi allu ymgymryd â'r rôl hon yn gadarnhaol.

Fe'm haddysgwyd yn Ysgol Alun yn Yr Wyddgrug, a phasio arholiadau Lefel 'A' yn Ffiseg, Cemeg a Bioleg. Arweiniodd hyn yn syth at radd Anrhydedd BSc Microbioleg o Brifysgol Lerpwl. Magodd hyn sgiliau hunan ddisgyblaeth, parodrwydd i ddysgu ynghyd â gallu i ddehongli, cyflwyno a dadansoddi data. Yn ystod y cyfnod hwn roeddwn yn gwirfoddoli yn Labordai Patholeg Ysbyty Wrecsam Maelor, a rhoddodd hyn olwg imi ar yr angen i reoli heintiau a'r nifer fawr o glefydau microbiaidd sy'n effeithio'r gymuned.

Wedi symud i Lundain i ennill Tystysgrif Addysg Ôl-radd er mwyn dysgu Bioleg a Gwyddoniaeth i fyfyrwyr uwchradd, datblygais y gallu i gyfathrebu'n effeithiol gyda phobl o bob math (rhai ohonynt yn heriol iawn), ysgrifennu adroddiadau a chadw at amserlenni.

Er fy mod wedi lled ymdeol erbyn hyn rwyf yn dal i ddysgu'n rhan amser yn Ysgol Alun, ac roedd fy nghyfrifoldebau blaenorol yn cynnwys Pennaeth Addysg Personol a Chymdeithasol, Cydlynnydd Ysgolion Iach ac Asesydd Ysgolion Iach i Sir y Fflint. Rwyf ar hyn o bryd yn Ymddiriedolydd ar gyfer Lions MD105 Lifeskills Ltd. (gynt yn Tacade), ac mae hyn yn fy ngalluogi i fod mewn sefyllfa i allu parhau i ddarparu a datblygu adnoddau sgiliau bywyd er mwyn rhoi sylw i anghenion iechyd a llesiant pob plentyn a pherson ifanc.

Wedi cael diagnosis o Lymffoma Hodgkin ar ddiwedd fy ugeiniau, bu'n rhaid imi gael triniaethau amrywiol: radiotherapi (Colchester), cemotherapi (yn Ysbyty Glan Clwyd) a throsglwyddiad bôn-gell (Christies). Sylwais ar fanteision a phwysigrwydd gweithwyr iechyd proffesiynol a'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda'i gilydd. Mae'n amlygu hefyd fy ymgysylltiad, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rolau a'r cysylltiadau rhwng darparwyr iechyd cynradd, eilaidd a thrydyddol.

Wedi clywed am y bwriad i adeiladu Canolfan Triniaeth Gancr yn Ysbyty Glan Clwyd, ysgrifennais at y Cyfarwyddwr Meddygol i ofyn pam nad oeddent yn gofyn am farn ac arbenigedd cleifion. Cefais wahoddiad i fod yn aelod o'r Grŵp Ffocws Cleifion, a chael cyfle i gyfrannu at gynllunio wardiau, cyfleusterau i gleifion, llecynnau awyr agored ynghyd â chwarae rhan yn y broses ymgynghori o ran addurnwaith mewnol a gwaith celf. Mae ymdeimlad o berchnogaeth yn rhan hollbwysig o ymgysylltu â'r cyhoedd, ac felly hefyd yr angen i roi llais iddynt a chyfle i werthuso'r gwasanaethau iechyd a ddarperir ar eu cyfer. Mae hyn oll yn cyfrannu at newidiadau ac at lunio arferion gwaith i'r dyfodol.

Wedi ymaelodi â'r Grŵp, arweiniodd hynny'n naturiol at wirfoddoli, gwneud gwaith codi arian ac yn y pendraw at ddod yn Ysgrifennydd Apêl Ron Smith (Apêl Margaret a Ron Smith erbyn hyn). Gan weithio gydag eraill, codwyd arian i ddarparu offer meddygol hanfodol ar gyfer y Ganolfan Triniaeth Gancr.

Daeth gwirfoddoli yn rhan fwy canolog o'm bywyd pan ddeuthum yn aelod o Lions Clubs International. Yn 2017-2018, deuthum yn Llywodraethwraig Ardal ar gyfer y mudiad gwasanaethau byd-eang hwn. Mae'r rôl hon yn golygu bod yn bennaeth gweinyddol ar gyfer, yn fy sefyllfa i, 800 o Lewod a 54 o glybiau, ar Ynys Môn, Swydd Amwythig, Swydd Caer, Conwy, Sir y Fflint a Swydd Stafford - tasg oedd yn cynnwys llawer o deithio, datrys gwrthdaro o bryd i'w gilydd, siarad cyhoeddus ac ymgysylltu â grŵp amrywiol o bobl oedd yn rhannu'r weledigaeth o wasanaethu eu cymunedau, bod yn hwylusydd a defnyddio sgiliau arwain yn effeithiol er mwyn hyrwyddo nodau a phwrpas y mudiad. Roedd rhan o'r rôl hon yn cynnwys gwaith hybu iechyd, trefnu sgrinio ar gyfer diabetes, gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â golwg, trefnu gwaith sgrinio'r brostad a chodi arian ar gyfer prynu Bloodbikes, ac ati.

Fel Cynghorydd Tref yn Yr Wyddgrug, rwyf yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Datblygu & Adfywio Cymunedol, y Pwyllgor Polisi & Archwilio, y Panel Dyfarniadau Cymunedol a'r Pwyllgor Cyngor Plant a Phobl Ifanc ac rwyf yn cynrychioli'r Cyngor ar Grŵp Masnach Deg Yr Wyddgrug. Roeddwn yn gyfrifol am gwblhau'r cais llwyddiannus i adnewyddu ei statws Tref Masnach Deg ym mis Mawrth eleni. Roedd hyn yn cynnwys crynhoi tystiolaeth oedd yn dangos y trefnwyd digwyddiadau, ymgysylltu ag ysgolion a'r gymuned ac addysg, yn ogystal â gwneud defnydd cadarnhaol o gyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus trwy gyfryngau cymdeithasol a'r wasg leol. Mae fy ymrwymiad i hyrwyddo iechyd da ac ymdeimlad o les yn parhau trwy gymryd rhan weithredol mewn gosodiad celf fydd yn rhan o 'Ŵyl Salwch' Manceinion ym mis Medi 2019.

Mae'r cyfan uchod yn pwysleisio fy ngwybodaeth a'm sgiliau personol, fy ymgysylltiad a'm brwdfrydedd dros hybu ac addysg iechyd. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i fod yn fudd-ddeiliad, yn dilyn cyhoeddiad diweddar "Cynllun Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd & Gofal Cymdeithasol". Mae hefyd yn ceisio cynnig ffordd holistaidd, rhoi'r person yn y canol o ddarparu ar gyfer iechyd a llesiant pawb, o'r crud i'r bedd. Bydd cyflawni hynny yn gryn gamp yn yr hinsawdd o lymder rydym ynddo a'i effaith ar wasanaethau cyhoeddus, a bydd yn galw ar weithwyr iechyd proffesiynol, addysgwyr, gwasanaethau cymdeithasol, y sector tai a'r trydydd sector, i enwi rhai yn unig, i weithio mewn partneriaeth ddiwriad. Byddwn yn falch iawn o gynrychioli Un Llais Cymru ac i chwarae rhan yn y broses hon ar eu rhan a gobeithiaf y bydd fy nghais yn cael ystyriaeth deilwng.

Teresa Carberry (Cyng)
Cyngor Tref Yr Wyddgrug

JACKIE ALLEN

Dear All

My Name is Jackie Allen, and I am the current Chairperson of the One Voice Wales North East Wales Area Committee.

I am the Chair of Chirk Town Council and this is a position I have held four times in the last ten years I have been a member of the North Wales Community Health Council for the last 7 years and was elected Chair of North Wales, serving the full term of 3 years... during that time I represented North Wales on the National board in Cardiff and was elected Vice Chair of the Board when the position became vacant – I held that position until my three year term came to an end.

As Chair of the Community Health Council I was the representative on the Stake Holder Reference Group for 3 years, only giving up when my term of office as Chair came to an end.

I would like to represent One Voice Wales on this committee, as I have knowledge of the membership, some knowledge of its business and terms of reference.

I am still involved with the CHC now as Chair of the Wrexham local committee, although my eight year membership will end next year (you can only be a member for eight years) and regularly meet members of the Stakeholder Group at other meetings I attend.

Regards
Jackie Allen

Annwyl Bawb

Fy enw yw Jackie Allen, ac rwyf ar hyn o bryd yn Gadeirydd Pwyllgor Ardal Gogledd Ddwyrain Cymru Un Llais Cymru.

Fi yw Cadeirydd Cyngor Tref Y Waun, swydd yr wyf wedi'i chyflawni bedair gwaith yn y ddeng mlynedd ddiwethaf.

Bûm yn aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru am y 7 mlynedd ddiwethaf a chefais fy ethol yn Gadeirydd Gogledd Cymru, gan wasanaethu'r cyfnod llawn o 3 blynedd... yn ystod y cyfnod hwnnw cynrychiolais Ogledd Cymru ar y Bwrdd Cenedlaethol yng Nghaerdydd a chefais fy ethol yn Is Gadeirydd y Bwrdd pan ddaeth y swydd yn wag – llenwais y rôl honno hyd nes y daeth fy nghyfnod tair blynedd i ben.

Fel Cadeirydd y Cyngor Iechyd Cymuned, fi oedd y cynrychiolydd ar y Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid am 3 blynedd, gan roi'r gorau iddi dim ond wrth i'm cyfnod yn Gadeirydd ddod i ben.

Hoffwn gynrychioli Un Llais Cymru ar y Pwyllgor hwn, gan fod gennyf adnabyddiaeth o'r aelodaeth a pheth gwybodaeth am ei waith a'i gylch gorchwyl.

Mae gennyf gysylltiad â'r Cyngor Iechyd Cymuned o hyd fel Cadeirydd pwyllgor lleol Wrecsam, er y daw fy nghyfnod wyth mlynedd i ben y flwyddyn nesaf (dim ond am wyth mlynedd y gallwch fod yn aelod) ac rydw i'n cyfarfod aelodau'r Grŵp Budd-ddeiliaid yn rheolaidd mewn cyfarfodydd eraill rydw i'n mynd iddynt.

Dymuniadau gorau
Jackie Allen

JOAN BAKER

Good morning

I am interested in the role as I have for the last 24 years worked for the Royal Voluntary Service as Service Manager in North Wales. until my retirement last July.

My role included the services the organisation provides at the hospitals with responsibility for the volunteers and the running of the tea bars and trolley services at the hospitals I also worked with vulnerable, lonely and isolated elderly people in Conwy and Denbighshire with the befriending and Positive Steps initiative. The hospitals for which I was responsible were Ysbyty Gwynedd, Glan Clwyd, Llandudno and Colwyn Bay. I have a passion for helping people in any way that I can. After a couple of months break I was asked by the RVS to be the new Volunteer Co-ordinator at Glan Clwyd hospital (this is an unpaid position) responsible for the volunteers who cover the two main reception desks. I co-ordinate DBS requirement, legal and governance, paying volunteer expenses and the rota, I also interview prospective volunteers. I volunteer myself on the main entrance and do enjoy, assisting patients, visitors and staff and helping where necessary. I am also a member of the Wayfinder Panel at Glan Clwyd.

I have been a Town Councillor for 7 years.

I am a Trustee of the St. Asaph Diocese Mothers Union with responsibility for Action and Outreach Church in Wales representative on SACRE Conwy County Borough Council

Diocesan representative and member of the Church Council of the Marble church Bodelwyddan

Branch Leader of the Mothers Union at Bodelwyddan

Help run a club for the elderly in Eirianfa Denbigh

Was School Governor until recently in Abergele but now Bodelwyddan Town Council have nominated me to be the LEA representative at the local school.

Before joining the RVS I was special needs co-ordinator for Pre-school children in Denbighshire.

Thank you
Joan Baker

Bore Da,

Mae gennyf ddiddordeb yn y rôl gan y bûm yn gweithio yn Rheolydd Gwasanaethau i'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yng Ngogledd Cymru am 24 mlynedd diwethaf cyn imi ymddeol ym mis Gorffennaf y llynedd.

Roedd fy rôl yn cynnwys y gwasanaethau y mae'r mudiad yn eu darparu yn yr ysbytai, ac roeddwn yn gyfrifol am y gwirfoddolwyr ac am redeg y bariau te a'r gwasanaethau troli yn yr ysbyty. Gweithiais hefyd gyda phobl oedrannus fregus, unig ac ynysig yng Nghonwy a Sir Ddinbych a chyda'r fenter gyfeillio a Chamau Cadarnhaol. Yr ysbytai yr oeddwn yn gyfrifol amdanynt oedd Ysbyty Gwynedd, Glan Clwyd, Llandudno a Bae Colwyn. Rwyf wrth fy modd yn helpu pobl mewn unrhyw ffordd y gallaf. Ar ôl cael hoe am ychydig fisoedd gofynnodd yr RVS imi fod yn Gydlynnydd Gwirfoddolwyr newydd yn ysbyty Glan Clwyd (swydd ddi-dâl), yn gyfrifol am y gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y ddwy brif ddesg dderbyn. Rwyf yn cydlynu gofynion DBS, materion cyfreithiol a llywodraethiant, talu treuliau gwirfoddolwyr a'r rota, ac rwyf hefyd yn cyfweld darpar wirfoddolwyr. Rwyf yn gwirfoddoli fy hun yn y brif fynedfa ac rwyf yn mwynhau helpu cleifion, ymwelwyr a staff a helpu lle y bo angen. Rwyf hefyd yn aelod o'r Panel Trywyddu yng Nglan Clwyd.

Bûm yn Gynghorydd Tref am 7 mlynedd.

Rydw i'n Ymddiriedolydd Undeb y Mamau Esgobaeth Llanellwyl, ac rwyf yn gyfrifol am Weithredu ac Allestyn.

Rydw i'n gynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru ar CYSAG Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Rydw i'n gynrychiolydd Esgobaethol ac yn aelod o Gyngor Eglwys yr Eglwys Farmor ym Modelwyddan.

Rydw i'n Arweinydd Cangen Undeb y Mamau ym Modelwyddan

Rydw i'n helpu rhedeg clwb henoed yn Eirianfa Dinbych

Bûm yn Llywodraethwr Ysgol yn Abergele tan yn ddiweddar ond erbyn hyn mae Cyngor Tref Bodelwyddan wedi fy enwebu'n gynrychiolydd yr Awdurdod Addysg Lleol yn yr ysgol leol.

Cyn ymuno â'r RVS roeddwn yn gydlynnydd anghenion arbennig ar gyfer plant cyn oed ysgol yn Sir Ddinbych Diolch

Joan Barker.

JANET HILTON

I retired in 2016 after 39 years working for the Ministry of Justice, previously Magistrates Courts Committee and Court service.

I held management positions in North Wales, Cheshire and latterly all Wales national posts.

I have wide experience of working with public and professionals at all levels.

My roles included Court manager, IT manager, Operations manager, Business Improvement Manager, Performance manager, Estates manager, Regional project manager.

I am currently vice chair of Hope Caergwrle and Abermorddu Community Council.

I volunteer for the Wales Community Health Council at Wrexham. I also volunteer with Park in the Past a start up

Community Interest company converting a disused quarry into a first century history and wildlife site.

I enjoy family time and traveling.

I feel my wide experience of successfully delivering change within the public sector may be useful in the opportunity to be OVW representative on BETSI Cadwaladr Health board.

Ymddeolais yn 2016 ar ôl 39 mlynedd yn gweithio i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a chyn hynny i'r Pwyllgor Llysoedd Ynadon a'r Gwasanaeth Llysoedd.

Gweithiais mewn swyddi rheoli yng Ngogledd Cymru, Swydd Caer ac yn fwyaf diweddar mewn swyddi Cymru gyfan.

Mae gennyf brofiad eang o weithio gyda'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ar bob lefel.

Roedd fy rolau'n cynnwys Rheolydd Llysoedd, Rheolydd TG, Rheolydd Gweithrediadau, Rheolydd Gwella Busnes, Rheolydd Perfformiad, Rheolydd Stadau a Rheolydd Prosiectau Rhanbarthol.

Rwyf ar hyn o bryd yn Is Gadeirydd Cyngor Cymuned Yr Hob, Caergwrle ac Abermorddu.

Rwyf yn gwirfoddoli i Gyngor Iechyd Cymuned Cymru yn Wrecsam. Rwyf hefyd yn gwirfoddoli gyda Park in the Past, sef cwmni Budd Cymunedol newydd sy'n troi hen chwarel yn safle hanes a bywyd gwyllt y ganrif gyntaf.

Rwyf yn mwynhau treulio amser gyda'r teulu a theithio.

Teimlaf y gall fy mhrofiad helaeth o lwyddo i greu newid o fewn y sector cyhoeddus fod yn ddefnyddiol yng nghyswllt y cyfle i gynrychioli Un Llais Cymru ar Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

HAYDN JONES

Dear All

After being diagnosed with Bowel cancer 8 years ago I have tried to put as much back to the BCUHB as possible aiming to help cancer patients
Having been a public member in Wrexham Maelor I then became a member of the North Wales Cancer Patient Forum and am now a very active member having recently been elected to the CAG group
I am a member of the Bowel Cancer Support Group in Wrexham and very involved in awareness and fundraising events that we carry out in the North Wales area
I carry out voluntary work in Maggie's Cancer Centre in Clatterbridge to learn the physiological needs of patients with a strong desire to open a Maggie's Centre in North Wales .
I am dedicated to improve all health care in North Wales and would welcome any chance to join any group that makes this possible
I am a fluent Welsh speaker and realise it's importance within the Health Authority

With best regards
Haydn
Councillor Haydn Jones

Annwyl Bawb

Wedi cael diagnosis cancr y coluddion 8 mlynedd yn ôl rwyf wedi ceisio rhoi cymaint yn ôl i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ag y gallaf er mwyn ceisio helpu cleifion cancr.
Wedi bod yn aelod cyhoeddus yn Wrecsam Maelor deuthum wedyn yn aelod o Fforwm Cleifion Cancr Gogledd Cymru, ac erbyn hyn rwyf yn aelod gweithgar iawn a chefais yn ethol yn ddiweddar yn aelod o'r grŵp CAG.
Rwyf yn aelod o'r Grŵp Cefnogi Cancr y Coluddion yn Wrecsam ac yn chwarae rhan amlwg yn y digwyddiadau ymwybyddiaeth a chodi arian sy'n cael eu cynnal yn ardal Gogledd Cymru.
Rydw i'n gwneud gwaith gwirfoddol yng Nghanolfan Cancr Maggie's yn Clatterbridge er mwyn dysgu am anghenion ffisiolegol cleifion sy'n awyddus iawn i agor Canolfan Maggie's yng Ngogledd Cymru .
Rwyf yn ymrwymedig i wella gofal iechyd yn gyffredinol yng Ngogledd Cymru a byddwn yn croesawu unrhyw gyfle i ymuno ag unrhyw grŵp sy'n gwneud hyn yn bosib.
Rydw i'n siarad Cymraeg yn rhugl ac rwyf yn sylweddoli ei phwysigrwydd o fewn yr Awdurdod Iechyd.

Cofion Gorau
Haydn
Cynghorydd Haydn Jones

MICHAEL PARRY

Dear All

As I have been active in health matters for many years, I believe that I have the experience and the ability to negotiate and advocate on behalf of the public and as a result on behalf of One Voice Wales. For whatever reason I am able to engender enthusiastic public support for health-related causes, and the last time I arranged a meeting over 850 people turned up – to meet representatives of the Betsi Cadwaladr Board. The audience included AMs, MPs, doctors, nurses, councillors and the general public. We ran a successful campaign to safeguard Ysbyty Bryn Beryl – but I strongly believe in campaigning across North Wales rather than focussing on parochial issues.

My wife is a nurse and former matron, and as a result I have extensive knowledge and background of the service. Another important issue is that I am always “available”. Very recently, I persuaded the Chair (BCUHB) to circulate my argument to all Board members in relation to my concerns (shared by the public and staff) about the vascular service across North Wales. I received a reply from him today explaining their viewpoint. I do not believe his arguments are valid and I intend to continue to explain to them why that is the case. As part of this, I have circulated all councils in Anglesey and Gwynedd to seek their support. The response to date has been very positive.

It would be a privilege to represent One Voice Wales on the Stakeholder Group – if I am successful.

Yours sincerely
Michael Parry

Annwyl Pawb

Gan fy mod wedi bod yn ymdrechu yn y maes iechyd ers rhai blynyddoedd - credaf fod y profiad a'r gallu gennyf i negodi ac i ddadlau ar ran y cyhoedd ac o ganlyniad Un Llais. Am pa bynnag reswn gallf alw am gefnogaeth brwd gan y cyhoedd yn y maes yma ac y tro diwethaf galwais cyfarfod daeth dros 850 - i gwrdd gyda rhai o frwdd Betsi Cadwaladr. 'Roedd y gynilleidfa yn cynnwys Aelodau o'r Senedd, San Steffan meddygon, nyrsys, cynghorau, a'r cyhoedd. Buom yn llwyddianus yn ein ymdrech parthed Ysbyty Bryn Beryl - ond credaf yn gryf mewn gweithredu i'r cyfan ar draws y Gogledd yn hytrach na dim ond pethau plwyfol. Mae fy ngwraig yn Nyrs ac yn cyn Fatron - felly mae gwybodaeth a chefnidir eang o'r gwasanaeth gennyf. Yn bwysig hefyd - dwi pob amser "ar gael". Yn ddiweddar iawn - perswadiais Cadeirydd (BCUHB) i gylchlythyru fy nadl i'r Bwrdd llawn - parthed fy mhryderon (ag safbwynt y cyhoedd a'r staff) ynglyn a'r gwasanaeth fasgiwlar ar draws y Gogledd. Cefais ateb yn y post ganddo heddiw yn egluro eu safbwynt. Credaf nid yw yn dal dwr ac byddaf yn pydru ymlaen i egluro pam iddynt.

Yn yr ymdrech, dwi wedi cylchlythyru pob Cyngor ym Mon a Gwynedd i gael cefnogaeth. Mae'r ymateb hyd yn hyn wedi bod yn bositif iawn.

Buasai'n ffraind i gynyrchioli Un Llais ar y Grwp cyswllt - os yn llwyddianus.

Yn ddiffuant
Michael Parry